

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED, TAI AC ASEDAU
12 IONAWR 2022

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mercher, 12 Ionawr 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Helen Brown, Geoff Collett, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood, Veronica Gay, Dennis Hutchinson, Kevin Rush, Brian Lloyd

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorydd Ray Hughes

DIRPRWYON:

Y Cynghorydd David Wisinger (ar ran y Cynghorydd David Cox)

HEFYD YN BRESENNOL : Roedd y Cynghorydd Patrick Heesom yn bresennol fel arsylwr.

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Dave Hughes (Aelod Cabinet Tai); y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol); Prif Weithredwr, Prif Gyfrifydd, Rheolwr Cyllid Strategol- Masnachol a Thai ac Ymgynghorydd Perfformiad Strategol

YN BRESENNOL: Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

35. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

36. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Ron Davies a'r Cynghorydd Kevin Rush.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Helen Brown am gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

37. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried. Cyfeiriodd at gyfarfod mis Chwefror a nodi y byddai'r adroddiad Archwilio Mewnol ar lety dros dro yn cael ei ychwanegu at y rhestr o eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod. O ran yr adroddiad olrhain camau

gweithredu, cadarnhaodd nad oedd yna unrhyw gamau gweithredu yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Helen Brown a oedd modd cyflwyno adroddiad ar eiddo Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r defnydd gorau o stoc tai yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. Cefnogwyd yr awgrym hwn gan y Prif Weithredwr a chytunwyd i'w gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Cafodd yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Helen Brown a'u heilio gan y Cynghorydd Brian Lloyd.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y cynnydd a wnaed o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau yn cael ei nodi.

38. Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT) CYNLLUN BUSNES ARIANNOL 30 MLYNEDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i ystyried y gyllideb Cyfrif Refeniw Tai a gynigiwyd ar gyfer 2022/23 a drafft o Gynllun Busnes Ariannol 30 mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai. Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Strategol (Masnachol a Thai) gyflwyniad yn cynnwys y canlynol:

- Benthycia
- Rhenti
- Rhenti Garejis
- Taliadau Gwasanaeth
- Rhaglen Gyfalaf
- Adfywio
- SHARP
- Arian Cyfalaf
- Cronfeydd Wrth Gefn
- Goblygiadau o ran Adnoddau (gan gynnwys ailstrwythuro er mwyn diwallu pwysau gwaith)
- Asesiad o Effaith a Rheoli Risg
- Ffyrdd o Weithio (Datblygu Cynaliadwy)
- Effaith Nodau Lles

Roedd y cynnydd o ran rhent a gynigiwyd yn y cynllun busnes yn gweithredu ymgodiad cyffredinol o 1.18% i'r holl denantiaid ac, yn ychwanegol, roedd yn gweithredu'r ymgodiad trosiannol o £2 i denantiaid sydd ar hyn o bryd yn talu o leiaf £3 o dan y rhent targed, sy'n gyfwerth â chynnydd cyffredinol o 2% mewn rhent, fel yr amlinellir yn y Cynllun Busnes.

Cynigiwyd cynnydd o 2% mewn rhent garejis a lleiniau garejis ar gyfer 2022/2023, a oedd gyfwerth â £0.20 yr wythnos am rent garejis, gan olygu bod y rhent wythnosol yn £10.23 (yn seiliedig ar 52 wythnos).

O ran Taliadau Gwasanaeth, cynigiwyd rhewi'r cynnydd eto yn 2022/23 oherwydd effaith barhaus y pandemig a byddai mwy o waith yn cael ei gyflawni yn ystod 2022/23, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu o safon uchel, yn cynnig gwerth am arian a bod y gwir gostau'n cael eu hadlewyrchu wrth gyfrifo taliadau gwasanaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd Helen Brown a oedd modd darparu dadansoddiad o'r taliadau rhent a rhent garejis mewn punnoedd a cheiniogau ar gyfer y Pwyllgor. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Strategol (Masnachol a Thai) y byddai'r wybodaeth hon yn amrywio ar gyfer pob tenant, ond y byddai modd darparu cyfartaledd ar gyfer tenantiaid i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Siaradodd yr Aelodau o blaid y gwaith a wneir o ran lleiniau garejis, fel yr amlinellir fel rhan o'r cyflwyniad.

Cafodd yr argymhelliad, a amlinellir o fewn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Ron Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Helen Brown.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cefnogi Cynllun Busnes Ariannol 30 mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gyllideb ar gyfer 2022/23, fel a gyflwynwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau.

39. CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Gynllun Drafft y Cyngor 2022/23, a oedd wedi cael ei adolygu a'i adnewyddu yn dilyn ymateb i'r pandemig a'r Strategaeth Adfer. Yr un yw'r themâu a'r blaenoriaethau â'r rhai yn 2021/22, fodd bynnag mae rhai o'r is-flaenoriaethau wedi'u datblygu.

Roedd strwythur y Cynllun yn parhau i gael ei gysoni i gyfres o chwe Amcan Lles ac roedd y chwe thema yn parhau i gymryd golwg hirdymor ar adferiad, uchelgais a gwaith dros y ddwy flynedd nesaf. Atodwyd amlinelliad o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2022/23, gan gynnwys y chwe thema, eu blaenoriaethau a'r camau gweithredu i'r adroddiad.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol y byddai'r holl sylwadau ac awgrymiadau yn cael eu casglu a'r rhannu â'r Cabinet cyn cymeradwyo eu mabwysiadu ym mis Mehefin 2022.

Cafodd yr argymhelliad a nodir yn yr adroddiad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Helen Brown a'r Cynghorydd Brian Lloyd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynnwys y themâu ar gyfer Cynllun y Cyngor 2022-23, fel a gyflwynwyd yn yr adroddiad a'r atodiad.

40. **AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.28am)

.....
Y Cadeirydd